# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Committee Room 2, Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024

Amser: 09.18 - 12.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13748

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Mike Hedges AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Tim Moss, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Dominic Houlihan, Llywodraeth Cymru |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Richard Harries |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Darlledir y cyfarfod hwn yn fyw ar www.senedd.tv

(Rhag-gyfarfod preifat)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Adfywio Canol Trefi.**

**2.2 Llythyr gan Brif Weithredwr a Chadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru: diweddariad yn dilyn y gwaith craffu a wnaed ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas ag adroddiad Iechyd a Gofal Digidol Cymru.**

**2.3 Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ar drefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon**

**2.4 Llythyr gan Lywodraeth Cymru: ymateb i lythyr y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus dyddiedig 26 Chwefror 2024 ynghylch casglu data ar benodiadau cyhoeddus ac yn benodol ddata ar gyfeiriadau ymgeiswyr a phenodeion a'u gallu yn Gymraeg.**

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitem 4, eitem 7 ac eitem 8 ar agenda'r cyfarfod heddiw.

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Papur i'w nodi (PREIFAT): Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol am ymddeoliad rhannol y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg

4.1 Nodwyd y papur.

## 5 Sesiwn dystiolaeth: Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 (Rhan 1)

5.1 Bu'r Aelodau yn holi'r tystion fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

### (Egwyl)

## 6 Sesiwn dystiolaeth: Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 (Rhan 2)

6.1 Bu'r Aelodau yn holi'r tystion fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

## 7 Trafod y dystiolaeth: Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Blaenraglen waith

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y flaenraglen waith ar gyfer tymor yr haf 2024.